

**Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn**  
**Answers to Questions not reached in Plenary**  
**24/06/2008**

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*

[R] signifies that the Member has declared an interest.

[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

**Cwestiynau i'r Prif Weinidog**  
**Questions to the First Minister**

**Road Safety on the A55**

**Q11 Ann Jones:** Will the First Minister make a statement on road safety on the A55 in north Wales? OAQ(3)1139(FM)

**The First Minister (Rhodri Morgan):** Road safety is of primary importance in our management of the trunk road network. The A55 is managed in accordance with the trunk road maintenance manual to ensure day-to-day safety. Statistics show that the safety of the A55 is comparable with that of other roads in its class.

**Diogelwch ar yr A55**

**C11 Ann Jones:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddiogelwch ar y ffyrdd ar yr A55 yn y gogledd? OAQ(3)1139(FM)

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Mae diogelwch ar y ffyrdd o bwysigrwydd sylfaenol yn y broses o reoli'r rhwydwaith cefnffyrdd. Mae'r A55 yn cael ei rheoli yn unol â'r llawlyfr cynnal a chadw ffyrdd, er mwyn sicrhau diogelwch o ddydd i ddydd. Dengys yr ystadegau fod yr A55 yr un mor ddiogel â ffyrdd eraill o'r un dosbarth.

**The Views of Young People**

**Q12 Sandy Mewies:** Will the First Minister make a statement on the ways in which the views of young people can be heard and included in the policies of the Welsh Assembly Government? OAQ(3)1158(FM)

**The First Minister:** The active participation of children and young people in policy-making in Wales is being promoted and developed by a number of key structures and projects, most notably when two young people addressed the Cabinet sub-committee on children and young people for the first time ever on 23 June.

**Safbwyntiau Pobl Ifanc**

**C12 Sandy Mewies:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y ffyrdd y gellir clywed safbwyntiau pobl ifanc a'u cynnwys ym mhollisiau Llywodraeth Cynulliad Cymru? OAQ(3)1158(FM)

**Y Prif Weinidog:** Mae annog plant a phobl ifanc i gyfrannu at y broses o lunio polisiau yng Nghymru yn cael ei hyrwyddo a'i ddatblygu gan nifer o strwythurau a phrosiectau allweddol. Yr enghraifft fwyaf nodedig o hyn oedd pan gafwyd anerchiad gan ddau o bobl ifanc yn is-bwyllgor y Cabinet ar blant a phobl ifanc, am y tro cyntaf erioed, ar 23 Mehefin.

**Welsh Financial Education Unit**

**Q13 David Lloyd:** Will the First Minister make a statement on the importance of the Welsh unit for financial education? OAQ(3)1135(FM)

**The First Minister:** I am pleased to confirm the importance that we attach to financial

**Uned Addysg Ariannol Cymru**

**C13 David Lloyd:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bwysigrwydd uned addysg ariannol Cymru? OAQ(3)1135(FM)

**Y Prif Weinidog:** Mae'n bleser gennyf gadarnhau ein bod yn rhoi pwys mawr ar

education for young people in Wales and to stress our commitment to the unit. We look forward to developing good practice across Wales with partners in local authorities, business and the voluntary sector.

### **Industrial Relations**

**Q14 Leanne Wood:** Will the First Minister make a statement on the state of industrial relations within Estyn? OAQ(3)1145(FM)

**The First Minister:** I look to the chief inspector and the trades unions side to foster good working relations at Estyn.

### **Volunteering**

**Q15 Christine Chapman:** What is the Welsh Assembly Government doing to encourage volunteering in Wales? OAQ(3)1152(FM)

**The First Minister:** The Welsh Assembly Government recognises the vital role of volunteers in our communities and is committed to supporting and encouraging this. The strategic action plan for the voluntary sector scheme explains how the Welsh Assembly Government will promote, encourage and extend volunteering opportunities across Wales.

ddarparu addysg ariannol i bobl ifanc yng Nghymru, ac yn pwysleisio ein hymrwymiad i'r uned. Yr ydym yn edrych ymlaen at ddatblygu arferion da ledled Cymru gyda phartneriaid mewn awdurdodau lleol, busnesau a'r sector gwirfoddol.

### **Cysylltiadau Diwydiannol**

**C14 Leanne Wood:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gyflwr cysylltiadau diwydiannol yn Estyn? OAQ(3)1145(FM)

**Y Prif Weinidog:** Cyfrifoldeb y prif arolygydd ac ochr yr undebau llafur yw meithrin perthynas weithio dda gydag Estyn.

### **Gwirfoddoli**

**C15 Christine Chapman:** Beth mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ei wneud i hybu gwirfoddoli yng Nghymru? OAQ(3)1152(FM)

**Y Prif Weinidog:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydnabod rôl hanfodol gwirfoddolwyr yn ein cymunedau, ac mae wedi ymrwymo i gefnogi ac annog hyn. Mae'r cynllun gweithredu strategol ar gyfer cynllun y sector gwirfoddol yn egluro sut y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn hybu, annog ac ehangu cyfleoedd i wirfoddoli ledled Cymru.